



# Vale School Governors' Association

## Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

### a'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr

# Llythyr Newyddion

## Nodyn gan y Cadeirydd

Roedd hi'n dda gweld cymaint ohonoch o bob rhan o'r Consortiwm yn y Gynhadledd i Lywodraethwyr a gynhaliwyd ddechrau fis Mawrth yn Nhŷ Dysgu yn Nantgarw.

Roeddwn yn arbennig o falch gyda gweithdy a arweiniwyd gan Athro David Egan ynghylch y cyswllt rhwng tlodi a chyflawniad mewn ysgolion yng Nghymru. Cafwyd esboniad awdurdodol ganddo am raddfa'r broblem a'i gwreiddiau hanesyddol. Ond cafwyd gwybodaeth ganddo hefyd am yr hyn y mae modd i ni ei wneud am hyn fel Llywodraethwyr.

Ei dri casgliad:

- Mae modd i ysgolion da wneud gwahaniaeth go iawn
- Nid oes modd i ysgolion ei wneud ar eu pen eu hunain. Mae angen iddynt ymgysylltu yn well gyda theuluoedd, gan annog sgiliau rhianta gwell.
- Mae angen i ni sicrhau bod gan gymunedau ddiddordeb yn eu hysgolion a'u bod yn ymgysylltu gyda nhw. Mae angen i gymdeithas werthfawrogi addysg.

Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol yma fel arweinwyr ym myd addysg. Mae gormod o ysgolion yn euog o gymryd y "ffrwyth isaf ar y goeden". Caiff plant eu geni gyda'r holl fanteision y mae modd i deuluoedd cyflogedig sefydlog ac sy'n meddu ar gymhelliant da eu cynnig. Maent yn

debygol o wneud yn dda ble bynnag y byddant yn cael eu haddysgu. Ceir eraill lle y bydd cyrraedd yr ysgol hyd yn oed yn peri anhawster, heb sôn am gael lle tawel i wneud eu gwaith cartref neu ipad er mwyn gwneud eu gwaith ymchwil arno gartref.

Ac ni ddylem fod yn ddi-hid gan feddwl nad oes angen i ardal gefnog a deiliog Bro Morgannwg ofidio am dlodi sy'n digwydd mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'r banciau bwyd yr un mor brysur yma ag y maent unrhyw le arall. Beth mae'ch ysgol chi yn ei wneud i helpu dysgwyr ifanc y maent yn cael eu magu mewn sefyllfa o dlodi? A oes rhywle tawel a diogel ar gael, lle y mae modd iddynt wneud eu gwaith cartref ar ôl ysgol? Pa fesurau yr ydych chi wedi eu cymryd er mwyn sicrhau bod pawb y mae modd iddynt wneud hynny yn hawlio'u un pryd poeth y dydd?

Mae'n ystadegyn damniol mai dim ond 20% o'r plant yng Nghymru y maent yn cael prydau ysgol am ddim sy'n sicrhau 5 TGAU da, ac mae gan y rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim siawns o 50% o wneud hynny. Y ffigurau yn y Fro yw 19% a 56%. Beth ydych chi yn ei wneud yn eich ysgol er mwyn newid hynny?

**Martin Price**

**Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri**

**Rhifyn 28**

**Tymor Gwanwyn 2013**

**Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:**

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

**Sefydlwyd VSGA i:**

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

## Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg,  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Tŷ Provincial, Heol Kendrick,  
Y Barri CF62 8BF

**Manylion cyswllt:**

**John Sparks**

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

**Janine Hoare**

Cynorthwydd Clerigol  
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820  
E-bost : JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)

Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

**VSGA**

**Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Tŷ Provincial  
Heol Kendrick, Y Barri CF62 4BF**

# Diweddariadau Presennol o Fewn yr Adran Dysgu a Sgiliau

## Penodiad newydd – Swyddog Proffesiynol Arweiniol dros Wella Ysgolion

Penodwyd Meryl Plummer yn Swyddog Proffesiynol Arweiniol newydd dros Wella Ysgolion.

Yn flaenorol, roedd Meryl yn cyflawni swydd uwch o fewn y Gwasanaeth Gwella Ysgolion a bydd yn dychwelyd i'r Fro o Gonsortiw Canol De Cymru, lle y mae'r cyflawni rôl Arweinydd System Uwch ar hyn o bryd.

Bydd Meryl yn ased i'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion newydd, ac i'r Gyfarwyddiaeth gyfan. Mae ei sgiliau, ei phrofiad a'i henw da proffesiynol yn rhagorol a bydd yn ychwanegu gwerth aruthrol i'r gwaith gydag ysgolion ac i'r holl blant a phobl ifanc yn yr Awdurdod.

Hysbysir ysgolion o'r dyddiad pan fydd Meryl yn cychwyn yn ei swydd newydd.

## Ailstrwythuro – Y Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion

Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion a'r Gwasanaeth Cefnogi Disgyblion wedi cael eu hailstrwythuro ac enw'r gwasanaeth cyfunol newydd fydd y Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion.

Fel Pennaeth y Gwasanaeth, bydd Lynette Jones yn arwain y gwasanaeth newydd gyda chymorth David Davies, a fydd yn cyflawni rôl y Swyddog Proffesiynol Arweiniol dros Gynhwysiant a Meryl Plummer, a fydd yn cyflawni rôl y Swyddog Proffesiynol Arweiniol dros Wella Ysgolion. Bydd y ddau Swyddog yn arwain ac yn rheoli timau proffesiynol o fewn eu disgyblaethau penodol fel y nodir isod.

Bydd y Gwasanaeth yn cynnwys pum tîm, fel a ganlyn:

### 1. Gwasanaeth Asesu Anghenion Cymhleth

Mae'r gwasanaeth yn rheoli'r broses statudol o asesu ac adolygu disgyblion y mae ganddynt anghenion addysgol arbennig, gan sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn unol â'r rheoliadau a'r gofynion statudol. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn rheoli ac yn darparu cyngor a hyfforddiant i ysgolion mewn perthynas â gweithdrefnau Gwahardd Disgyblion, gan sicrhau y dilynir gweithdrefnau yn unol â'r gofynion statudol.

### 2. Gwasanaeth Seicoleg Addysg

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn wasanaeth cymorth proffesiynol a ddarparir gan yr Awdurdod Lleol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei rwymedigaethau statudol dan Ddeddf Plant 1996 a Deddf AAA ac Anabledd 2001. Darparir y gwasanaeth trwy gyfrwng model ymgynghori, sy'n golygu gweithio gyda'r oedolion dan sylw (athrawon, rhieni) er mwyn helpu i lunio datrysiadau i broblemau a nodwyd ganddynt, wrth helpu plant i ddysgu ac wrth feithrin eu lles a'u datblygiad.

### 3. Gwasanaeth Cymorth Dysgu a Chynhwysiant Cymdeithasol

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys dau dîm:

Mae'r Tîm Diogelu, Cymorth Dysgu a Lles yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, rhieni a phlant a phobl ifanc er mwyn sicrhau lles cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl.

Tîm Ymddygiad, Presenoldeb a Phlant sy'n Derbyn Gofal

Swyddogaeth y Gwasanaeth Ymddygiad a Phresenoldeb yw gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, staff addysgu ac asiantaethau partner er mwyn sicrhau ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol a phresenoldeb yn yr ysgol.

### 4. Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn rheoli swyddogaethau statudol ym maes gwella ysgolion sef herio, monitro, cynorthwyo ac ymyrryd. Darparir y gwasanaeth hwn yn unol â llwyddiant yr ysgol. Darparir y rhan hon o'r gwasanaeth trwy gyfrwng Gwasanaeth Addysg ar y Cyd (JES) Consortiw Canol De Cymru.

Mae tîm o Arweinwyr System (AS) yn darparu amrediad o swyddogaethau i'n hysgolion, dan oruchwyliaeth Arweinydd System Uwch (SSL) sy'n gweithio o fewn JES a Thîm Cymorth Sgiliau Sylfaenol sy'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant a Gwella Ysgolion yn Nh Provincial yn y Barri.

Mae'r Swyddog Arweiniol dros Wella Ysgolion yn cyflawni rôl sy'n cynrychioli JES, gan gydweithio'n agos gyda'r Arweinydd System Uwch, sy'n cyflawni swyddogaeth sy'n wynebu'r cleient ar gyfer y Swyddog Arweiniol dros Wella Ysgolion a'r Pennaeth Gwasanaeth.

### 5. Gwasanaeth Rheoli Prosiectau a Chefnogi Llywodraethwyr

Mae'r tîm yn darparu cymorth ac arweiniad i gyrff llywodraethu ein hysgolion ar draws yr Awdurdod. Mae'n darparu rhaglen hyfforddi flynyddol, llyfrynnau arweiniad, cylchlythyrau, mae'n hwyluso'r broses o benodi arweinwyr uwch mewn ysgolion, mae'n recriwtio llywodraethwyr newydd, mae'n cadw cronfa ddata o fanylion llywodraethwyr, mae'n delio gyda chwynion ac yn rheoli mentrau a phrosiectau y maent yn rychwantu sawl gwasanaeth.

Mae'r tîm yn darparu trosolwg manwl o waith ysgolion a'u cyrff llywodraethu, yn ogystal â chymorth ac arweiniad gwerthfawr i'r Pennaeth Gwasanaeth ac i swyddogion uwch eraill yn y Cyngor wrth weithredu polisi ac arfer arfaethedig.

## Hwyl fawr i'r ffordd brics melyn

Yn ystod 2013, bydd cynllun ailgylchu llwyddiannus iawn ar gyfer ysgolion yn dod i ben, a hoffem ddweud 'diolch yn fawr' am y cymorth a gafwyd a chofio'r hyn a ddigwyddodd.

Rhwng 2003 a 2010, bu'r Cyngor yn hyrwyddo Sialens y Goedwig Felen yn ysgolion y Fro, sef cynllun cenedlaethol i ailgylchu llyfrau ffôn tudalennau melyn. Yn ystod y sialens, aeth ysgolion ati mewn ffordd frwdfrydig i gasglu niferoedd mawr o gyfeiriaduron tudalennau melyn ar adeg pan nad oedd modd ailgylchu'r cyfeiriaduron hyn ar garreg y drws gan bod eu cyfanswm a'r ffaith eu bod mor drwchus yn achosi problemau i'n cerbydau ailgylchu.

Yn ystod y cyfnod hwn, byddai ysgolion yn casglu tua 27 o gyfeiriaduron fesul disgybl, gan ennill cystadlaethau cenedlaethol, a daeth masgot y prosiect cenedlaethol, 'Kirk' (creadur 6 troedfedd o'r goedwig!), yn ffefryn mawr yn ysgolion y Fro. Yn syml, os byddech yn rhoi'r holl dudalennau melyn a gasglwyd yn ystod y blynyddoedd hyn ar y llawr, byddech yn creu ffordd o frics melyn y byddai Dorothy yn ffilm The Wizard of Oz yn falch ohoni!

Daeth y cynllun cenedlaethol i ben yn 2010 ac erbyn hynny, gallai preswylwyr y Fro ailgylchu eu tudalennau melyn yn ein cynllun ar garreg y drws. Ond roedd gennym ddilema, gan bod ysgolion yn awyddus i gymryd rhan o hyd ac roeddem yn ymwybodol o'r ffaith bod y cynllun wedi helpu i gyflawni amcanion eraill, megis y rhai ar gyfer Eco-Ysgolion ac ADCDF. Felly, dros y 2 flynedd ddiwethaf, rydym wedi rhoi cynnig ar gyfaddawd, lle y bu disgyblion yn ailgylchu eu cyfeiriaduron trwm gartref, gan ddod â chlwr y cyfeiriaduron tudalennau melyn i'r ysgol.

Ond nid oedd fawr iawn o gloriau yn cael eu cyflwyno i ysgolion a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan.

Fel yr esboniodd Cyngorydd Rob Curtis, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Gwasanaethau Gweladwy "Yn fy marn i, mae'r cynllun hwn wedi



dod at derfyn ei oes naturiol. Mae datblygiadau cadarnhaol ym maes ailgylchu wedi golygu bod modd i ni ailgylchu rhagor o ddeunyddiau gartref, ac mae mor hawdd gwneud hynny." Aeth Rob ymlaen i ddweud "Mae cynhyrchion a'r ffordd y byddwn yn eu defnyddio wedi newid hefyd. Rydym yn fwy tebygol o edrych am rifau ffôn ar-lein nawr, felly efallai na fyddwn yn cadw cyfeiriadur yn y cartref. Bellach, rydym yn annog preswylwyr i roi hen gopiâu o'u tudalennau melyn i'w gwasanaeth ailgylchu cymysg wythnosol."

Sam Harrison, Swyddog Ymwybyddiaeth Gwastraff, Rheoli Gwastraff a Glanhau

Am wybodaeth bellach, ffoniwch:

**01446 700111 neu anfonwch e-bost at: [visible@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:visible@valeofglamorgan.gov.uk)**

## Canllawiau Newydd Ynghylch Gweithdrefnau Disgyblu a Disgyblu Staff

Trowch at y cyswllt isod er mwyn gweld y cylchlythyr newydd hwn gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys y canllawiau ynghylch gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff mewn ysgolion, ynghyd â gweithdrefn enghrefftiol, siart lliw a llythyrau disgyblu enghrefftiol.

**Saesneg** - <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/staff-disciplinary-and-dismissal/?lang=en>

**John Sparks**  
Pennaeth Cefnogi Llywodraethwyr

## Grwpiau Meithrin

Gofynnwyd i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Tîm Cymorth Ymddygiad i gyflwyno'r athroniaeth a'r arfer ynghylch egwyddorion meithrin yn ysgolion Bro Morgannwg gyda'i gilydd.

Sefydlwyd y Grwpiau Meithrin cyntaf yng nghanol Llundain ym 1969, er mwyn ymateb i'r ffaith bod nifer gynyddol o blant yn cyrraedd yr ysgol gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol difrifol, yn deillio o drawma cynnar ac anawsterau ymlyniad. Nod ymyrraeth y Grŵp Meithrin yw creu byd plentyndod cynharaf; trwy gyfrwng profiadau dysgu sylfaenol a hanfodol y byddant yn cael eu profi yn ystod y dair blynedd gyntaf o'u bywydau fel arfer. Mae hyn yn cynorthwyo'r plentyn i fod yn barod i ddysgu.

Mae ymchwil wedi dynodi 'bod grwpiau meithrin yn hynod o lwyddiannus, nid yn unig wrth gynnal plant mewn dosbarthiadau prif ffrwd ond hefyd, wrth gael effaith bwerus a chadarnhaol ar blant eraill ac athrawon yn yr ysgol' (Arnold, Boyd a Cooper, 2001).

Rhodddwyd gwybodaeth ynghylch hyfforddiant Grwpiau Meithrin i'r holl Benaethiaid fel ffordd o fynd i'r afael gyda nifer gynyddol y plant y maent yn cyrraedd ysgolion ac yn dioddef trawma cynnar ac anawsterau ymlyniad.

Trefnwyd cwrs hyfforddiant Grŵp Meithrin llwyddiannus ym mis Tachwedd 2012 yn Ysgol Romilly, a fynychwyd gan 19 o staff gan gynnwys; Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid, Athrawon a Chynorthwywyr Cymorth Dysgu. Hyd yn hyn, mae 8 ysgol naill ai wedi datblygu Grŵp Meithrin neu'n mynd trwy'r broses o ddatblygu Grŵp Meithrin, gan gynnwys 7 Ysgol Gynradd ac 1 Ysgol Gyfun.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Tîm Cymorth Ymddygiad yn darparu cymorth parhaus er mwyn grymuso ysgolion i sefydlu a datblygu Grwpiau Meithrin ymhellach. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio adnoddau, offerynnau asesu ac arweiniad trwy'r broses er mwyn hwyluso arfer da.

Mae DCSF (2007) yn amlygu'r ffaith bod modd i Grwpiau Meithrin gyfrannu at welliant ysgol trwy gyfrwng; lefelau presenoldeb ac ymddygiad gwell sy'n arwain at ddysgu mwy effeithiol a chanlyniadau academiaidd gwell. Mae'r sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sy'n cael eu datblygu o fewn Grwpiau Meithrin yn hanfodol er mwyn sicrhau lles ein disgyblion mwyaf agored i niwed.

Bwrriedir cynnal cwrs hyfforddi arall (25 Chwefror) o'r enw 'Sut i Greu Ystafell Ddosbarth sy'n Meithrin', a'i nod fydd cyflwyno Egwyddorion Meithrin i arfer dyddiol yn yr ystafell ddosbarth.

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Hilary Drew a Siân Winckle, Gwasanaeth Cymorth Disgyblion.**

## Management Committee Membership 2012-14

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig a'r ddau Gynrychiolydd y maent yn Rhieni-Lywodraethwyr (un o'r sector Cynradd ac un o'r sector Uwchradd).

Rhif.	Teitl	Llythyren gyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Gwenfo C/W Primary
2	Cllr Mr	C	Elmore	Barry Comp & Holton Primary
3	Mrs	M	Gibbs	Llantwit Major Comp & Romilly Primary
4	Mrs	S	Hodges	Ysgol Gwaun y Nant & Ysgol Sant Baruc
5	Mr	P	Lewis	Cowbridge Comp
5	Mrs	A	Males	Cogan Primary & St Cyres Comp
7	Mr	M	Mason	Llanilltud Fawr Prim & Ysgol Dewi Sant
8	Dr	M	Price	St Richard Gwyn R/C High
9	Mrs	C	Roach	Llangan Primary
10	Mr	P	Sampson	Cadoxton Primary
11	Mr	D	Treharne	Llansannor C/W Prim & Ysgol Gwaun y Nant
12	Mr	S	Williams	Rhws Primary
13	VACANCY			
14	VACANCY			
15	VACANCY			
PGR - Prim	Mr	L	Kellaway	Ysgol Gyfun Bro Morgannwg/Ysgol Nant Talwg
PGR - Sec	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive

Dylai unrhyw lywodraethwyr y mae ganddynt ddi-ddordeb mewn bod yn aelod o Bwyllgor Rheoli VSGA, gysylltu â John Sparks trwy anfon e-bost at [JSparks@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:JSparks@valeofglamorgan.gov.uk)

# Diweddariad gan AD

## Diogelu/Recriwtio mwy diogel

Yn y rhifyn diwethaf, amlygwyd y gwaith a wnaethpwyd gan AD er mwyn datblygu polisi Recriwtio mwy Diogel i'w argymhell i ysgolion.

Bellach, mae'r polisi wedi cael ei gwblhau a'i gyhoeddi i'r holl ysgolion, gyda'n hargymhelliad y dylai'r Llywodraethwyr dderbyn y polisi yn ystod cyfarfod nesaf eich Corff Llywodraethu llawn. Mae ysgolion wedi cael y ffurflen briodol i'w llenwi a'i dychwelyd i AD er mwyn ein hysbysu bod y polisi wedi cael ei fabwysiadu.

Mae'r polisi yn amlinellu'r safonau mewn perthynas ag archwiliadau cyn cyflogaeth at ddibenion diogelu, gan gynnwys archwiliad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gyda gwahardd) a geirda boddhaol, yn ogystal ag archwiliadau diogelu eraill gan gynnwys archwilio unrhyw fylchau yn y cofnod cyflogaeth yn ystod y cyfweiliad a dilysu'r cofrestrriad gyda CACC ar gyfer Athrawon. Yn ogystal, rhaid cynnal y gofyniad ynghylch cynnal archwiliadau cyn cyflogaeth eraill gan gynnwys asesiad meddygol boddhaol a chadarnhau'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i ysgolion neilltuo amser digonol er mwyn i'r archwiliadau hyn gael eu cynnal yn eu hamserlen recriwtio cyn y dyddiad cychwyn. Yr unig eithriad i hyn yw os byddai methu penodi yn arwain at faterion diogelu/diogelwch posibl i ddisgyblion ac mewn achosion o'r fath, bydd angen dilyn proses Asesu Risg. Mae'r polisi yn berthnasol i gyflogeion, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth a chontractwyr.

Wrth benodi, bydd angen i chi sicrhau bod yr holl gyflogeion, gwirfoddolwyr a gweithwyr asiantaeth yn ymwybodol o bolisiau ymddygiad eich Ysgol, ei threfniadau Diogelu gan gynnwys y swyddog diogelu arweiniol yn yr ysgol, ac unrhyw bolisi/gweithdrefnau perthnasol eraill yn yr ysgol y maent yn hyrwyddo diogelwch disgyblion.

Caiff y polisi ei gynorthwyo gan ddogfen ganllawiau a fydd yn cael ei dosbarthu i ysgolion cyn bo hir.

## Recriwtio a Dethol

Yn ychwanegol i'r polisi Recriwtio mwy Diogel, argymhellir hefyd bod ysgolion yn mabwysiadu Polisi Recriwtio y Fro, sy'n cynnwys arfer da.

## Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Ym mis Rhagfyr, unodd y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, gan greu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ni fydd y newid yn effeithio ar rwymedigaeth eich ysgol i ofyn am ddatgeliad DBS Manylach (gan gynnwys archwiliad yn erbyn y rhestr wahardd berthnasol), a bydd hyn yn parhau trwy gyfrwng proses ffurflen gais gyfredol DBS.

Disgwylir newidiadau pellach eleni – y cyntaf fydd cyflwyno gwasanaeth diweddar ar-lein ar gyfer archwiliadau DBS, a fydd yn digwydd yn ystod y gwanwyn 2013. Darparir gwybodaeth bellach am hyn pan fydd ar gael.

## Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol

Ceir cynigion ynghylch newidiadau i'r trefniadau datblygiad cyflog ar gyfer Athrawon yn unol ag argymhellion adroddiad STRB rhif 21. Rydym yn aros am wybodaeth bellach gan yr Adran Addysg a byddwn yn cadarnhau'r manylion ar gyfer Penaethiaid a Llywodraethwyr cyn gynted ag y bydd hon ar gael.

Os hoffech gael gwybodaeth am y cynigion, trowch at:

<http://www.education.gov.uk/schools/careers/paya/ndpensions/a00203870/strb-remit-21st-report>

## Canllawiau Diwygiedig ynghylch Gweithdrefnau Disgyblu Ysgolion

Yn ddiweddar, rydym wedi cael canllawiau wedi'u diweddarau gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r rhain er mwyn drafftio Gweithdrefn/Polisi Disgyblu newydd ar gyfer Ysgolion. Byddwn yn ymgynghori am hyn gydag Undebau Llafur maes o law a phan fydd y fersiwn terfynol ar gael, byddwn yn ei anfon i Ysgolion er mwyn argymhell bod Cyrff Llywodraethu yn ei fabwysiadu. Yn y cyfamser, dylai Ysgolion barhau i ddefnyddio polisi presennol y Fro.

Mae modd gweld y canllawiau diwygiedig trwy droi at:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/staff-disciplinary-and-dismissal/?lang=en>

# Materion Ynghylch Cig Ceffyl

Rydym wedi tynnu cig eidion oddi ar y fwydlen mewn ysgolion er mwyn bod yn ofalus. Roedd profion blaenorol wedi dangos nad oedd DNA ceffyl mewn cig eidion a gyflenwyd gan Welsh Bros o Gasnewydd. Fodd bynnag, ar ddydd Mercher 27 Chwefror 2013, darganfuwyd bod un casgliad o friwgig eidion yn cynnwys DNA ceffyl ac o'r herwydd, tynnwyd cig eidion oddi ar y fwydlen am y tymor byr wrth i ni gydweithio'n agos gyda'r cyflenwr er mwyn sicrhau bod y safonau'n cael eu codi a bod mwy o waith monitro yn cael ei wneud yn y dyfodol. Bernir mai digwyddiad unigol yw hwn gan bod y cyflenwr yn parhau i anfon briwgig eidion i'w brofi ac mae pob canlyniad arall wedi bod yn negyddol.

Mae Welsh Bros wedi bod yn cyflenwi cig o ansawdd i Fro Morgannwg ers dros 22 o flynyddoedd. Mae'n bwysig nodi nad mater sy'n ymwneud â diogelwch bwyd yw hwn, ond mater sy'n ymwneud â thwyll mewn perthynas â bwyd. Bydd angen i gyflenwyr sicrhau bod gweithdrefnau labelu mwy llym yn cael eu gweithredu yn y dyfodol.

## Ffordd Albert – Dim Amhariad i'r Gwasanaeth

Yn ystod cyfnod heriol iawn y bu'n rhaid i staff a disgyblion Ysgol Ffordd Albert ei wynebu cyn y Nadolig, roedd y gwasanaeth arlwyio prydau ysgol yn teimlo'n falch o'i gyflawniad, sef y llwyddwyd i ddarparu gwasanaeth cinio llawn i'r staff a'r disgyblion bob dydd yn ddiethriad!

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff a fu'n ymwneud gyda'r gwaith cludo a darparu gwasanaeth ar yr adeg hon.

Pan ddychwelodd y staff a'r disgyblion i'r ysgol cyn gwyliau'r Nadolig, darparwyd cinio Nadolig traddodiadol iddynt, ac roedd pawb a oedd yn bresennol wedi ei fwynhau.

***Da iawn i'r tîm!***

**Carole Tyley**

Catering Manager

---

## Annwyl Riant/Gofalwr

Mae'n bleser gennyf ysgrifennu atoch i gadarnhau y bydd 'Tîm Albert' yn dychwelyd i'w gartref haeddiannol ar ddydd Iau 20 Rhagfyr. Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai hynod o heriol i bawb, fodd bynnag, rydym yma o hyd! Llwyddwyd i sicrhau hyn trwy gyfrwng eich cymorth diwyro chi, ymddygiad rhagorol y plant a phroffesiynoldeb yr holl staff. Yn ogystal, mae Albert wedi gweld ysbryd cymunedol go iawn gan rieni/gofalwyr y maent wedi gwirfoddoli ac y cawsant eu cydlynu gan SOAP, ynghyd â'n ffrindiau yn y Tabernacl, y maent wedi estyn llaw cyfeillgarwch gan ein galluogi ni i alw eu cartref nhw yn Ysgol Gynradd Albert yn ystod ein cyfnod yn yr anialwch.

Mae symud i Ganolfan Hamdden Cogan a'r Tabernacl wedi galluogi'r plant i gael lluo o brofiadau ym maes chwaraeon, celf a chreffft, gweithgareddau meithrin tîm ac yn bwysicaf oll, y cyfle i berfformio'r cynrychiadau Nadolig. Mae hyn wedi sicrhau y bu modd i'r plant fwynhau amser pwysig iawn ym mlwyddyn galendr yr ysgol gynradd o hyd.

Yn ystod ein cyfnod i ffwrdd, mae bywyd wedi symud yn ei flaen ac mae'n bleser gennyf eich hysbysu y bydd rhai newidiadau i'r staff yn digwydd ym mis Ionawr 2013: mae Mrs Sarah Robson wedi sicrhau secondiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o rwydwaith o Arweinwyr Uwch profiadol er mwyn gweithredu'r Rhaglen Meistri Addysg i Athrawon Newydd Gymhwysu. Bydd ei chyswllt hi gyda hyn o fudd mawr i'n hysgol ac i athrawon newydd yn Ne Cymru. Dros y ddau dymor nesaf, addysgir dosbarth Mrs Robson gan Miss Higgins, y mae'n cyflenwi ym Mlwyddyn 1 ar hyn o bryd yn ystod cyfnod mamolaeth Mrs Morgan, felly yn ystod rhan gyntaf tymor y gwanwyn, bydd Mr Owen David yn addysgu dosbarth Blwyddyn 1. Mae Mr David wedi addysgu yma o'r blaen ac mae ysgol leol wedi canu ei glodydd yn fawr.

Rydw i'n siŵr y byddwch yn rhannu ein llawenydd ynghylch Mrs Robson, gan barhau i gefnogi Miss Higgins a chroesawu Mr David ym mis Ionawr. Atodaf amserlen ar gyfer gweddill y tymor a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi unwaith eto ac i ddymuno Nadolig Llawn ac Iach iawn i chi, a Blwyddyn Newydd Lewyrchus.

Yn gywir  
**Huw Jones**  
Pennaeth